Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad Cyfarfod Ionawr 2026

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Croesawodd yr is-gadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Rhagfyr 2025.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.
Cafwyd cadarnhad bod amcanbris ar gyfer tarmacio wedi ei dderbyn. Cafwyd cadarnhad gan y Cynghorwyr y byddai'r Cyngor yn talu am y dŵr a'r trydan pan fydd y cais cynllunio wedi ei gymeradwyo.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiad Rhagfyr 2025 ar y wefan.

DIFFYG YMATEB GAN GYNGOR SIR CAERFYRDDIN
Roedd y Clerc wedi cysyllu sawl gwaith yn ddiweddar â Chyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn â sawl pwnc o bwys yn y plwyf. Nid oedd wedi derbyn ymateb i amryw ymholiadau perthnasol.

Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 30 Mawrth 2026 am 7.30yh.